# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18 Ionawr 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 22 Ionawr 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 29 Ionawr 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC** Gwerthu Rhydd Ddaliad Lladd-dy, Stad Ddiwydiannol Cibyn.

**PENDERFYNIAD –**Argymhellir fod y Cyngor yn gwerthu Rhyddfraint y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i'r tenant presenol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis – Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18:01:2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Gwerthu Rhydd Ddaliad Lladd-dy, Stad Ddiwydiannol Cibyn.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Argymhellir fod y Cyngor yn gwerthu Rhyddfraint y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i'r tenant presenol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn unol a Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad Aelod Cabinet i waredu eiddo pan fod ei werth uwchlaw £25,000.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull arferol o waredu eiddo'r Cyngor yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw rai sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Yn yr achos yma, mae'r safle eisoes wedi ei brydlesu i denant ar brydles tir tymor hir, gyda'r tenant yn berchen ar yr adeiladau, tra bo'r Cyngor yn parhau yn berchen ar deitl rhyddfreinol y tir. O'r herwydd, mae'r tenant yn fodlon talu elfen o bremiwm er mwyn cyfuno eu les a'r teitl rhyddfreiniol.

Pe bai'r Cyngor yn cynnig y safle ar y farchnad agored yn amodol i'r brydles bresennol, o ystyried natur ansefydlog y Lladd-dy, a'r ffaith fod nifer o weithredwyr wedi methu dros y blynyddoedd diweddar, mae bodolaeth y brydles yn cyfyngu ar y gwerth y byddai trydydd pati yn fodlon ei dalu am y safle. Yn ychwanegol at hyn, pe bai'r tenant yn methu yn ariannol a fod y safle yn dychwelyd i'r perchenog, o ystyried y

defnydd fel Lladd-dy, gallai fod cymhlethdodau a chostau sylweddol o ran llygredd, a byddai hyn yn cael ei adleweyrchu yn y pris y byddai trydydd parti yn fodlon ei dalu am y safle.

Nid oes unrhyw fwriad gwaredu am lai na gwerth y farchnad.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.


**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

Prif Swyddog Cyllid – "Dan yr amgylchiadau, credaf fod yr hyn a awgrymir yn rhesymol ac yn adlewyrchiad teg o'r opsiynau sydd ar gael. Mae'r brydles hirdymor sydd eisoes yn ei le, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r safle, yn cyfyngu derbyniadau ariannol y Cyngor petai rhyddfraint y safle'n cael ei waredu ar y farchnad agored. Credaf mai gwerthu'r rhydd-ddaliad yn uniongyrchol i'r prydleswyr presennol sy'n cynnig y dewis orau o safbwynt ystyriaethau ariannol hirdymor y Cyngor. Nid oes gennyf wrthwynebiad, felly, o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro – "Fe esbonir y cyd-destyn y gwerthiant yn yr adroddiad a'r dyletswydd a osodir dan Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Rwy'n fodlon a phriodoldeb yr argymhelliad yn yr adroddiad."

Aelod/au Lleol – Y Cynghorydd Jason Parry - Dim gwrthwynebiad i'r gwerthiant.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd